

Mae amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn adrodd storïau ein treftadaeth ddiwylliannol.

Drwy gadwraeth, arddangosfeydd ac ymgysylltu â chymunedau, gallant ddod â chasgliadau, lleoedd a syniadau yn fyw. Maen nhw'n ein helpu i ddeall diwylliant, gwyddoniaeth a hanes, ac yn rhoi ymdeimlad o le, hunaniaeth a chymuned i ni.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ers 1994 rydym wedi dyrannu **£2.6 biliwn** i fwy na 6,100 o brosiectau mewn amgylcheddau amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a chasgliadau ledled y DU. Mae storïau o brosiectau rydyn ni wedi'u hariannu i'w gweld isod.

Beth rydym yn ei gefnogi?

Rydyn ni'n rhoi grantiau o £10,000 i £10 miliwn ar gyfer prosiectau treftadaeth a arweinir gan neu sy'n cynnwys amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau.

Mae ein hariannu'n cefnogi sefydliadau mawr a bach, gan gynnwys:

- amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau cenedlaethol, awdurdod lleol ac annibynnol
- llyfrgelloedd hanesyddol
- archifau cymunedol a chasgliadau hanes llafar
- sefydliadau sydd â chasgliadau treftadaeth

Syniadau prosiect

Gallai ein hariannu helpu pobl i:

- greu mannau arddangos a dysgu newydd cyffrous
- denu cynulleidfaoedd newydd a mwy amrywiol
- caffael eitemau newydd a datblygu casgliadau
- gwella cydnerthedd sefydliadol

Am fwy o ysbrydoliaeth, gweler y storïau isod neu porwch y prosiectau rydyn ni wedi'u hariannu.